------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 55(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

**Hannah Blythyn (Delyn):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ar ddyfodol swyddi i weithwyr o Gymru a gaiff eu cyflogi yng ngwaith Vauxhall yn Ellesmere Port, yn sgil cyhoeddiad General Motors ei fod yn bwriadu gwerthu Vauxhall i Peugeot?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cynllun Cyflawni Strôc wedi'i Ddiweddaru

(45 munud)

**Dogfen Ategol**
2017 – 2020 Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc - Cynllun Cyflawni wedi'i Adnewyddu ar gyfer GIG Cymru a'i Bartneriaid

## 4 Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2016-17

(30 munud)

**NDM6236** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 7 Chwefror 2017.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen Ategol**
Yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 5 Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16

(60 munud)

**NDM6246** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2015-16.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2017.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2015-16

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod ansawdd ac amrywioldeb addysgu yn parhau i fod yn un o agweddau gwannaf y ddarpariaeth ar draws sectorau yn system addysg Cymru.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r system addysg yn diwallu anghenion pob dysgwr o hyd.

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi mai arweinyddiaeth yw'r ffactor mwyaf sy'n effeithio ar wella ysgolion ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gwybodaeth fanylach ynghylch sefydlu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, gan gynnwys ei chyllid, targedau, a sut y bydd arweinwyr yn gallu cael gafael ar ei chymorth.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at berfformiad cymharol wael yr unedau cyfeirio disgyblion a arolygwyd yn 2015-16, pan na nodwyd bod yr un ohonynt yn dangos arferion ardderchog, a gosodwyd y pedair mewn categori statudol camau dilynol, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â gwendidau mewn darpariaeth, arweinyddiaeth a rheoli fel mater o frys.

## 6 Dadl: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

(60 munud)

**NDM6247** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2017 ac yn cydnabod swyddogaeth, cyfraniad a llwyddiannau menywod ym mywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn bod menywod yn dal i gael eu tan-gynrychioli mewn swyddi arweinyddiaeth ac yn gresynu mai dim ond pedwar y cant o Brif Weithredwyr y 100 prif fusnes yng Nghymru a 31 y cant o aelodau byrddau prif gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n fenywod.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gyrraedd y trothwy cydbwysedd rhwng y rhywiau, bod 40 y cant o fyrddau cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn fenywod, a chynyddu nifer y menywod sy'n gadeiryddion ac sydd ar banelau cynghori cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y bwlch cyflog canolrifol yr awr rhwng dynion a menywod yng Nghymru yn 2015 yn 14.6 y cant.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod 29 y cant o fenywod a oedd yn gweithio yng Nghymru wedi ennill llai na'r cyflog byw, o'i gymharu â 20.5 y cant o ddynion, ar sail cyflog byw o £8.25 yr awr ym mis Ebrill 2016.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai cyfartaledd rhwng y rhywiau yng Nghymru yn gwella pe bai gwersi perthynas iach yn dod yn orfodol mewn ysgolion.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 8 Mawrth 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Mawrth 2017 i'w hateb ar 7 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0493(FM)

**2.** **David Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella mynediad i Faes Awyr Caerdydd? OAQ(5)0494(FM)

**3.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i leihau'r rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor cyfnewidiol? OAQ(5)0481(FM)

**4.** **Jeremy Miles (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y seilwaith cyfathrebu digidol yng Nghymru? OAQ(5)0488(FM)

**5.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu'r broses o recriwtio meddygon teulu yng Nghymru? OAQ(5)0484(FM)

**6.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am arferion bydwreigiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0483(FM)

**7.** **Michelle Brown (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gorfodi a gymerwyd o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014? OAQ(5)0487(FM)

**8.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ynghylch effaith diwygio lles ar gefnogi anghenion tai yng Nghymru? OAQ(5)0492(FM)

**9.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau endometriosis yng Nghymru? OAQ(5)0495(FM)

**10.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0489(FM)

**11.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â chymdeithasau tai er mwyn darparu mwy o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru? OAQ(5)0491(FM)

**12.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi cais Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2021? OAQ(5)0486(FM)

**13.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod pobl sy'n fyddar neu'n colli eu clyw yng Nghymru yn gallu parhau i elwa ar dechnoleg gynorthwyol ac offer cynorthwyol? OAQ(5)0485(FM)

**14.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0482(FM) **- TYNNWYD YN ÔL**

**15.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am signal ffonau symudol ym Môn? OAQ(5)0490(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

---

**Dydd Mawrth 14 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – y ffordd ymlaen (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Economi Ddigidol (30 munud)
- Dadl: Gwastraff Trefol ac Ailgylchu (60 munud)

**Dydd Mercher 15 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 29.91 yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Aelod ynghylch Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (Dai Lloyd) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Dyfodol Cyflenwi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Menter Ymchwil Busnesau Bach (45 munud)
- Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (5 munud)
- Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

- Dadl Fer – Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni) (30 munud)

**Dydd Mawrth 28 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017 (15 munud)
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil (Cofrestru) Pedolwyr (15 munud)
- Dadl: Yr Adolygiad o Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 29 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ddeiseb ar Ganser yr Ofari (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)